Rheoli Busnes a TG – BA (Anrh) (Amser Llawn)

Mae'r rhaglen hon i fyfyrwyr sy'n dymuno dysgu sut i ddefnyddio technoleg gwybodaeth gyfoes ac arferion rheoli cyfoes sy'n gysylltiedig â rheoli pobl a phrosiectau.

Partneriaeth: Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Cod UCAS: N122

Gofynion Mynediad

Mae'r meini prawf mynediad yn nodi cynnig nodweddiadol ond mae'r Coleg yn ystyried pob cais ar sail unigol sy'n golygu y gallem wneud cynigion yn seiliedig ar gymwysterau, proffil personol a phrofiad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch eich cynnig cysylltwch â'n Tîm Derbyn.

Cynnig nodweddiadol: 3 Safon Uwch â gradd C neu broffil MMM o gymhwyster Lefel 3 BTEC a phum TGAU â Gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfwerth)

Rhagolygon Gyrfa

Gallwch gamu ymlaen at amrywiaeth o gyrsiau ôl-raddedig sy'n gysylltiedig â gofal plant, gan gynnwys TAR yn y Blynyddoedd Cynnar/Addysg Gynradd.

Mae gan raddedigion ragolygon gyrfa mewn ystod eang o ddisgyblaethau gofal plant, er enghraifft: gweithwyr cymorth, rheolwyr gofal plant, gweithwyr cymorth dysgu a chynorthwywyr addysgu.

Manylion y cwrs

Mae modiwlau ym mlwyddyn un yn cynnwys: Busnes: Yn y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol, Sgiliau Cyfathrebu Busnes ar gyfer Marchnata, Economeg, Datblygiad Proffesiynol mewn Cyfrifiadura: Peirianneg Gwybodaeth, Technolegau'r We a Systemau Cyfrifiadurol.

Ym mlwyddyn dau: Cyfraith Fusnes, Ennyn Ymgysylltiad Pobl a'u Harwain, Hysbysebu a Brandio, Cyfrifiadura

Cyfrifol, Dylunio Prosiectau Grwp, y Berthynas rhwng Pobl a Chyfrifiaduron.

Ym mlwyddyn tri: Meddwl Strategol, Marchnata Strategol, Rheoli Prosiectau TG, Cyfrifiadura yn yr 21ain Ganrif a Thraethawd Hir.

Asesiad

Fel arfer bydd yn rhaid i chi gwblhau portffolios, cyflwyniadau ac aseiniadau ysgrifenedig wrth i chi gamu ymlaen, ac fel arfer bydd yn rhaid i chi sefyll arholiadau ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd

DULL ASTUDIO
HE

HYD Y CWRS
3 Blynedd - Amser-Llawn

FFIOEDD
Ffioedd 2019/20: £9000 y Flwyddyn